# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

## DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

## WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON

## 9/3/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2000-0026 Cadw Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol / Retention of Section 28 of the Local Government Act

10 Mar 2000 Raised by David Davies

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad yn credu y dylid cadw Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol. Er hynny mae hefyd yn credu y dylid ei diwygio i egluro nad atal athrawon rhag ymdrin â'r broblem o fwlian homoffobig mewn ysgolion yw bwriad 'Adran 28'.*
*Dylai'r gwelliant i'w ychwanegu at ddiwedd is-adran (2) fod fel a ganlyn:*
*'or prevent the headteacher or governing body of a maintained school, or a teacher employed by a maintained school, from taking steps to prevent any form of bullying'.*

*This Assembly believes that Section 28 of the Local Government Act should be retained. However it also believes that it should be amended, to make it clear that 'Section 28' is not intended to prevent teachers from addressing the problem of homophobic bullying in schools.*
*The amendment to be added to the end of subsection (2) should read;*
*'or prevent the headteacher or governing body of a maintained school, or a teacher employed by a maintained school, from taking steps to prevent any form of bullying'.*

# OPIN-2000-0009 Y Frenhiniaeth yn yr 21ain ganrif/ The Monarchy in the 21st Century

28 Jan 2000 Raised by David Melding

9 Subscribers:
Michael German OBE
Val Feld
Christine Humphreys
Gareth Jones
Jenny Randerson
Glyn Davies
Cynog Dafis
Nicholas Bourne LLB LLM
Peter Rogers

*PLEASE NOTE PREVIOUS ALLOCATED REF NO 1999-0092*
*Codwyn/Raised 19 January 2000*

*Mae'r Cynulliad hwn yn credu y dylai'r deddfau sy'n rheoli olyniaeth a choroni'r Brenin neu Frenhines adlewyrchu gwerthoedd Cymru yn yr 21ain ganrif. Mae'r Cynulliad hwn yn annog y Senedd i:*

- *gael gwared o wahaniaethu yn erbyn menywod drwy ddiddymu cyntafanedigaeth*
- *diddymu gwahaniaethu yn erbyn Catholigion drwy gael gwared o'r darpariaethau sy'n gwahardd Catholigion a rhai sy'n briod â Chatholigion rhag esgyn i'r Orsedd, ac;*
- *adlewyrchu cymeriad eciwmenaidd ac aml-ffydd Cymru a'r DU drwy newid llw'r coroni fel y ceir gwared o ddyletswydd y brenin neu'r frenhines i amddiffyn "Y Grefydd Brotestannaidd" a'i newid am ymrwymiad i gynnal Cristnogaeth a pharchu pob ffydd gydnabyddedig.*

  *This Assembly believes the laws that govern the succession and coronation of the Monarch need to reflect the values of Wales in the 21st Century. This Assembly urges Parliament to:*
- *remove discrimination against women by abolishing primogeniture;*
- *eliminate discrimination against Catholics through the removal of provisions that exclude Catholics and persons married to Catholics from the Throne, and;*
- *reflect the ecumenical and multi-faith character of Wales and the UK by amending the coronation oath to replace the duty of the sovereign to uphold the "Protestant religion" with a commitment to uphold Christianity and respect all recognised faiths.*